CYLCHLYTHYR
RHIFYN 04 • GORFFENNAF 2022

# CARFAN GOFAL PLANT RHCT



## SHWMAE A CHROESO

I RIFYN HAF EIN CYLCHLYTHYR.


Gobeithio y bydd e'n ddefnyddiol i chi. Mwynhewch haf hyfryd a chofiwch i gysylltu â ni am unrhyw ymholiadau, problemau neu gymorth.

## Aelod newydd o'r garfan



Ymunodd Ann Evans â'r garfan ym mis Mehefin 2022, gan gymryd lle Rachel Gunter sydd wedi symud i rôl arall yn yr adran Addysg. Mae Ann wedi ymuno â ni o'r garfan Profi, Olrhain, Diogelu. Cyn hynny, gweithiodd Ann mewn amrywiaeth o swyddi ym myd Llywodraeth Leol ac mae'n dod â llawer o brofiad gyda hi. Bydd hi'n gweithio gyda Rhys a Cath i weinyddu'r Cynnig Gofal Plant, gan gynnwys ceisiadau gan rieni, cwestiynau gan ddarparwyr ac ailwiriadau.

## Picnic y Tedis



Roedd hi'n hyfryd mynd i Bicnic y Tedis ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd ar 17 Mehefin. Mae 3 blynedd wedi bod ers yr achlysur diwethaf a, thrwy lwc, bu'r tywydd yn hyfryd a chawson ni'r presenoldeb mwyaf erioed. Os oeddech chi yno, gobeithio daethoch chi i ddweud helo ar ein stondin. Mae'r achlysur yn cael ei gynnal bob mis Mehefin, ac am y tro cyntaf eleni, roedd y tocynnau'n rhad ac am ddim. Gobeithio y bydd hyn yn parhau yn y blynyddoedd i ddod, felly gwnewch nodyn ar eich calendr ar gyfer y flwyddyn nesaf!

## Fforwm Gwarchod Plant

Mae grŵp Facebook preifat wedi'i sefydlu er mwyn i warchodwyr plant gyfnewid syniadau, cefnogi ac ysbrydoli ei gilydd i ddarparu cyfleoedd chwarae penagored. Chwiliwch am ***Curious Adventures, Learning Through Play***.

Os ydych chi'n warchodwr plant yn RhCT ac eisiau ymuno, anfonwch gais i ***Curious Adventures, Learning Through Play***. Mae'n cael ei redeg gan warchodwyr plant ar gyfer gwarchodwyr plant.



## Ehangu Gwasanaeth Gofal Plant Dechrau'n Deg

Bydd rhaglen Dechrau'n Deg yn cychwyn ehangu'n raddol o fis Medi 2022. Bydd lleoedd gofal plant ar gael mewn lleoliadau sydd wedi'u comisiynu i fod yn rhan o gynllun Dechrau'n Deg, ond dyw manylion llawn yr ehangu yn RhCT ddim ar gael eto. Os oes gyda chi ddiddordeb mewn gwneud cais i gynnig y cynllun yma'n y dyfodol, e-bostiwch **GofalPlantDechraunDeg@rctcbc.gov.uk** am ragor o wybodaeth.

Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y rhifyn nesaf, ond ewch i **https://llyw.cymru/ehangur-ddarpariaeth-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-yn-raddol** am yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru.

**Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg / You are welcome to communicate with us in Welsh.**

Carfan Gofal Plant yn RhCT Childcare Team in RCT

Cynnig Gofal Plant Cymru / The Childcare Offer for Wales – Addysg gynnar a gofal • Early education and care

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Rhondda Cynon Taf / Family Information Service

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

RHONDDA CYNON TAF

51520-23

## Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd

Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn cysylltu â phob darparwr â chyfrif DEWIS segur i ofyn iddyn nhw ail-greu, neu ddileu, y cyfrifon. Cofiwch, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn ffordd wych i hysbysebu'ch busnes i rieni a gweithwyr proffesiynol AM DDIM. Rydyn ni hefyd yn e-bostio ein holl wybodaeth i restr ddosbarthu y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Felly os dyw eich busnes chi ddim wedi'i restru ar gronfa ddata'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, rydych chi'n colli allan ar gyfle i gael mwy o rieni i weld eich proffil, yn ogystal â cholli gwybodaeth bwysig oddi wrthon ni.

I gofrestru neu ddiweddaru'ch cyfrif, e-bostiwch **GwasanaethGwybodaethiDeuluoedd@rctcbc.gov.uk**.

# Hyfforddiant

Cafodd ein hamserlen hyfforddiant gorfodol ar gyfer Medi–Tachwedd 2022 ei rhyddhau ar 27 Mehefin.

Mae hyn yn cynnwys:

- Cymorth cyntaf pediatrig
- Diogelu
- Codi a chario
- Rheoli Ymddygiad Heriol

Cadwch le ar gyfer unrhyw sesiwn hyfforddiant drwy'r dolenni sydd wedi'u rhannu ar ein tudalen Facebook ac mewn e-byst gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Mae pob sesiwn hyfforddiant wedi'i ariannu'n llawn ac ar sail y cyntaf i'r felin. Cofiwch roi gwybod i ni os nad oes modd i chi ddod fel bod modd i ni gynnig eich lle i rywun arall.

Mae cyrsiau hyfforddi ar Alergenau Bwyd a Diogelwch Bwyd hefyd ar gael yn barhaus. Os oes angen y cyrsiau yma arnoch chi, e-bostiwch **CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk** i ofyn am le.

Os oes unrhyw hyfforddiant y byddech chi'n ystyried yn ddefnyddiol, e-bostiwch **CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk** i roi gwybod i ni.

Cofiwch fod ein tudalen Facebook breifat yn ffordd wych o weld newyddion diweddaraf y garfan a phartneriaid eraill.

## I ymuno, ewch i...

**https://www.facebook.com/groups/childcareteamRCT** neu chwiliwch am **'RCT Childcare Team'** yn y cyfleuster chwilio ar Facebook.





# Cynnig Gofal Plant Cymru

Bydd ceisiadau ar gyfer plant sy'n 3 oed cyn 31 Awst 2022, bydd yn gymwys o fis Medi, ar agor ddydd Llun 4 Gorffennaf. Mae modd i rieni wirio eu cymhwysedd a gwneud cais yma: **www.rctcbc.gov.uk/cynniggofalplant**.

Parhewch i hyrwyddo'r cynnig i rieni a chysylltu â ni os ydych chi eisiau unrhyw daflenni arddangos yn eich lleoliad. Nawr bod cyfyngiadau yn llacio, rydyn ni hefyd yn dod mas i gyfarfodydd rhieni a lleoliadau cyhoeddus eraill. Os hoffech chi i ni ddod i unrhyw achlysuron rydych chi'n eu cynnal, cysylltwch â ni.

Bydd rhagor o wybodaeth am y system ddigidol newydd ar gael yn rhifyn nesaf ein cylchlythyr.



## Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant

Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant am y pum mlynedd nesaf wedi'i ysgrifennu, ac unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet, bydd e'n destun ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Awst 2022. Byddwn ni'n cyhoeddi'r asesiad yn eang ar ein tudalen Facebook a bydd hefyd yn cael ei e-bostio atoch chi gyda manylion ar sut y mae modd cyflwyno sylwadau. Edrychwch drwy'r adroddiad a gadewch i ni wybod eich barn! Bydd cynllun gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant yn gosod ein blaenoriaethau datblygu gofal plant ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

## Cysylltwch â ni...



**01443 570048**

**www.rctcbc.gov.uk/carfangofalplant**

Carfan Gofal Plant:
**CarfanGofalPlant@rctcbc.gov.uk**

Cynnig Gofal Plant Cymru (Darparwyr yn unig):
**DarparwyrCynnigGofalPlant@rctcbc.gov.uk**

**RCT Childcare Team**